## Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL

**Dyddiad:** 26 Mehefin 2003
**Amser:** 09:00
**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd
**Teitl:** Nodyn o gyfarfod anffurfiol ar y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop - 31 Mawrth 2003

### Nodyn o gyfarfod

1. Cyfarfu aelodau o'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol - Tom Middlehurst (Cadeirydd), Rosemary Butler, John Griffiths a Phil Williams - â Peter Hain, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i drafod y sefyllfa bresennol ar y Gynhadledd ar Ddyfodol Ewrop.

2. Eglurodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y Gynhadledd mewn cyfnod hollbwysig ar hyn o bryd. Cynhelir Cyfarfod Llawn olaf y Gynhadledd ar 12-13 Mehefin ac fe gaiff yr adroddiad terfynol ar y Gynhadledd ei ystyried yng nghyfarfod Cyngor y Gweinidogion yn fuan wedi hyn.

3. Yna aeth yr Ysgrifennydd Gwladol ymlaen i roi amlinelliad o faterion allweddol trafodaeth y Gynhadledd.

***Papur y DU ar swyddogaeth y rhanbarthau***
4. Cafodd y papur dderbyniad da iawn a'i ystyried fel cyfraniad pwysig a gwreiddiol i'r Gynhadledd. Teimlai'r Ysgrifennydd Gwladol ei bod yn debygol y byddai argymhellion y papur yn cael eu derbyn, er y byddai rhywfaint o wrthwynebiad i roi mwy o ran i'r rhanbarthau o du Ffrainc a Sbaen.

***Sybsidiaraeth a swyddogaeth y Seneddau Cenedlaethol***
5. Roedd cynigion y DU yn cynnwys gofyniad y dylai'r Comisiwn roi manylion ynghylch deddfwriaeth arfaethedig yr UE i seneddau cenedlaethol er mwyn iddynt farnu a yw'r cynnig yn tresbasu ar hawliau sybsidiaraeth. (Sef sybsidiaraeth yr Aelod Wladwriaeth mewn perthynas â'r UE). Awgrymwyd hefyd y byddai angen i'r Comisiwn ailystyried ei gynnig pe byddai un rhan o dair o'r Seneddau cenedlaethol yn gwrthwynebu tresbasu ar sybsidiaraeth.

6. Roedd Llywodraeth y DU yn cynnig hefyd fod Senedd y DU yn rhoi'r rhybuddion cynnar hyn i'r deddfwrfeydd datganoledig er mwyn iddynt farnu a dresbasid ar sybsidiaraeth. Ni fyddai'r trefniant hwn gyda'r cynulliadau rhanbarthol yn ofyniad yn y Cytundeb, ond fe fyddai'r Aelod Wladwriaethau eraill yn cael eu hannog i ddilyn model tebyg.

7. Nododd aelodau'r Pwyllgor y gallai hyn olygu fod newid yn swyddogaeth a ffocws y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Fe fyddai'n rhaid i'r Cynulliad a deddfwrfeydd datganoledig eraill gytuno gyda Senedd y DU ar yr union drefniadau.

8. Cydnabuwyd y byddai cyfyngiadau ar allu'r Cynulliad i ddylanwadu yn y modd hwn, ond fe gytunwyd bod hwn yn gam pwysig ymlaen.

***Siarter hawliau sylfaenol***
9. Roedd y DU wedi gwrthwynebu cynnwys y Siarter Hawliau Sylfaenol yng Nghytundeb Nice, oherwydd ei heffaith bosib ar ddeddfau domestig. Roedd ymgais yn awr i'w chynnwys yng Nghytundeb y Gynhadledd. Roedd y DU yn fodlon derbyn hyn, ar yr amod bod cymalau llorweddol cadarn yn cael eu cynnwys i sicrhau mai'r unig effaith fyddai'r gallu i herio gweithredoedd sefydliadau'r UE yn Llys Cyfiawnder Ewrop.

***Pledleisio Mwyafrif Cymwys mewn polisi cymdeithasol***
10. Roedd ymgyrch gref i ganiatáu pledleisio mwyafrif cymwys (QMV) mewn mwy o feysydd polisi cymdeithasol. Roedd y DU, a'r Almaen ymsyg eraill, yn gwrthwynebu'r awgrym hwn. Roedd pryder arbennig y byddai hyn yn agor y drws i'r UE mewn systemau trethu cenedlaethol.

***Polisi Tramor a Diogelwch***
11. Roedd awgrym y dylid defnyddio pledleisio mwyafrif cymwys i benderfynu ar bolisi tramor a diogelwch ac mai mater i'r Comisiwn, yn hytrach na'r Cyngor fyddai polisi tramor. Roedd y DU yn gwrthwynebu hyn.

***Diwygio Sefydliadol***
12. Roedd y DU yn awyddus i weld y Cyngor yn ad-drefnu i fod yn fwy effeithiol ac i ganiatáu mwy o barhad a blaengynllunio mwy cydlynol. Roedd hyn yn cynnwys yr awgrym y dylid ethol Cadeirydd i'r cyngor; syniad sy'n cael ei gefnogi gan Sbaen, yr Eidal, Ffrainc, yr Almaen, Denmarc, Sweden a Gwlad Pwyl, ond sy'n cael ei wrthwynebu gan rai o'r Aelod Wladwriaethau llai.

***Gweledigaeth gyffredinol i'r UE***
13. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod rhai Aelod Wladwriaethau, fel Ffrainc, yr Almaen a Gwlad Belg, yn awyddus i adfywhau'r syniad o Ewrop aml-gyflymder i'w galluogi i fynd ar ôl cysylltiadau dyfnach. Roedd amddiffyn a diogelwch yn cael eu hystyried fel meysydd lle y gellid mynd ati'n wahanol; nid oedd y DU yn cefnogi hyn.

14. Awgrymwyd hefyd y dylai Senedd Ewrop ethol Llywydd y Comisiwn. Mae'r DU yn awyddus i osgoi gwleidyddoli'r Comisiwn o gwbl.

**Casgliad y drafodaeth**

15. Roedd yr angen i ddatrys nifer o'r pynciau mawr, megis polisi tramor a diogelwch yn parhau, ond roedd y DU yn awyddus i gadw at yr amserlen.

16. Cytunodd yr Ysgrifennydd Gwladol i edrych faint mwy y gellid ei wneud ar ieithoedd lleiafrifol a datganiad ar hawliau ieithyddol.

17. Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Gwladol am drefnu'r cyfarfod a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.

18. Cytunwyd y byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor newydd ar ganlyniadau'r Gynhadledd.  Cytunwyd hefyd y dylid gwneud ymdrech i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfarfod y Pwyllgor newydd i drafod y materion dan sylw cyn diwedd y Gynhadledd, ond y tebyg oedd y byddai'n rhaid gwneud hyn mewn cyfarfod anffurfiol.

**Man Cyswllt**
Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor